Fel arfer aeth llond bws o blant, 32 ohonynt i Benparcau un prynhawn i gymryd rhan yn y ras draws gwlad. Gwnaeth pawb ei orau glas ac ymdrechion canmoladwy iawn gan nifer ohonynt.

Gwneud addurniadau Nadolig oedd y gweithgaredd yng nghlwb yr Urdd ar 28 Tachwedd a daw'r tymor presennol i ben gyda pharti'r Urdd ar nos Lun, 12 Rhagfyr.

Ar nos Wener, 2 Rhagfyr, cafodd rhieni plant dosbarth 4 gyfle i fwynhau perfformiad o'r ddrama "Guto Nyth Brân". Braf oedd gweld pob plentyn o'r dosbarth yn cymryd rhan ac yn gwneud ei gwaith yn raenus drwy gyfrwng y Gymraeg. Daliwch ati.